**GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

**GORFFENNAF 2017**

**CYLCH GORCHWYL**

Bydd y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) yn darparu adolygiad annibynnol o bob cais achos busnes am fuddsoddiad cyfalaf a bydd ganddo awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo gwerth hyd at £1 filiwn. Bydd yn arfarnu pob cais am gyfalaf, beth bynnag fo'i werth, ac yn eu hadolygu a'u cymeradwyo neu wneud argymhelliad priodol i naill ai'r Cabinet neu'r Cyngor llawn os yw gwerth y cais yn uwch na £1m neu os yw'n fwy priodol, am resymau eraill, i'r Cabinet neu'r Cyngor llawn ei gymeradwyo. Mae cyfansoddiad y cyngor yn caniatáu i'r Cabinet gymeradwyo cynlluniau cyfalaf unigol, ond mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar gyfer y Cynllun Cyfalaf blynyddol. Mae'n bosibl y bydd y Grŵp Buddsoddi Strategol yn penderfynu y dylai rhai cynlluniau cyfalaf penodol (oherwydd eu graddfa ariannol neu risg er enghraifft), gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yr aelod cabinet arweiniol sy'n gyfrifol am Gyllid fydd yn gwneud yr argymhelliad terfynol yn hyn o beth.

Cyflawnir cworwm y GBS pan fydd dau aelod o'r cabinet yn bresennol, gydag un o'r rheiny yn aelod arweiniol sy'n gyfrifol am Gyllid, a dau aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, gydag un o'r rheiny yn Swyddog Adran 151 (neu yn cael ei gynrychioli gan y Dirprwy Swyddog Adran 151).

Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo dirprwyaeth i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol i gymeradwyo cynlluniau cyfalaf sy'n werth hyd at £1m. Gellir defnyddio'r ddirprwyaeth hon cyn belled a bo dau aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, gydag un o'r rheiny yn Swyddog Adran 151 (neu Ddirprwy Swyddog 151) yn bresennol i roi cymeradwyaeth.

Mae aelodau y GBS yn cynnwys:

- Aelod Cabinet Arweiniol sy'n gyfrifol am Gyllid (Cadeirydd)
- Arweinydd y Cyngor
- Aelod Cabinet
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Archwilio
- Cyfarwyddwr Corfforaethol
- Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151)
- Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai (Landlord y Sir)

- Rheolwr Tîm Gwybodaeth Busnes

**Swyddogaethau craidd:**

1. Adolygu ac (os yw'n fodlon), cymeradwyo cost cyfalaf neu ofynion ariannu pob cynllun cyfalaf, neu argymell bod y Cabinet neu'r Cyngor (fel y diffinnir yn y dirprwyaethau uchod) yn eu cymeradwyo;

2. Sicrhau fod pob cais am gynlluniau cyfalaf:
    - Yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol
    - Yn cynnwys Achos Busnes llawn (ar y ffurf ragnodedig)
    - Yn nodi'n glir cyfanswm y cyllid gofynnol a'r ffynonellau ariannu posibl
    - Yn nodi'n glir goblygiadau o ran refeniw nawr ac yn y dyfodol
    - Yn nodi'n glir yr effaith ar asedau corfforaethol y cyngor
    - Yn cefnogi blaenoriaethau'r cyngor a gytunwyd,
    - Yn cynnwys asesiad o dan y Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

3. Argymell strategaeth tymor canolig neu hirdymor ar gyfer:
    - Blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer cefnogaeth
    - Nodi opsiynau ar gyfer cynyddu'r cyllid sydd ar gael

4. Adolygu'r holl geisiadau llwyddiannus am gyfalaf cyn pen dwy flynedd ar ôl eu cymeradwyo.

5. Mae'r Cylch Gorchwyl yn berthnasol i gynlluniau sy'n cael eu cyfrif yng Nghronfa Gyffredinol y Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Fodd bynnag, bydd gwariant cyfalaf blynyddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw stoc dai'r cyngor ac er mwyn caffael hen stoc dai a waredwyd o dan y cynllun Hawl i Brynu ar sail ad-hoc, yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Cabinet fel rhan o broses cyllideb refeniw a chyfalaf y CRT ac ni fydd angen cymeradwyaeth bellach fel mater o drefn gan y GBS.

6. Fel arfer bydd y GBS yn trefnu i gyfarfod bob mis ond mae'n cydnabod fod natur rhai ceisiadau neu gynigion yn golygu y gallai cyfarfodydd ychwanegol fod yn ofynnol neu, yn amodol ar ganiatâd gan yr aelod arweiniol sy'n gyfrifol am Gyllid a'r Pennaeth Cyllid, mae'n bosibl y bydd angen ystyried neu gymeradwyo ceisiadau drwy e-bost.